Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010

"Rheoliadau SSOTA Cymru"

Canllawiau i Ffermwyr

Tachwedd 2010

Ceir ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys yr Arfbais Frenhinol a'r logos adrannol) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar gyfer ymchwilio i ddibenion anfasnachol, astudiaeth breifat neu i'w ddosbarthu'n fewnol o fewn sefydliad, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ailddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y Goron ar y deunydd a nodi teitl y cyhoeddiad.

I ddefnyddio'r deunydd hwn ar gyfer unrhyw ddiben arall gwnewch gais am Drwydded Clicio-Defnyddio neu ysgrifennwch at:

Office of Public Sector Information
Information Policy Team
Kew
Richmond
Surrey
TW9 4DU

ebost: licensing@opsi.gsi.gov.uk

Mae gwybodaeth am y cyhoeddiad hwn ar gael gan:
Y Gangen Rheoli Tir yn Gynaliadwy
Adran Datblygu Ffermydd
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR

Ffôn: 0300 0622 469

Ebost: slmp@wales.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru:
www.wales.gov.uk

Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Atodiad
Nid yw'r canllawiau o fewn y ddogfen hon ynghylch cyfleusterau storio olew tanwydd amaethyddol bellach mewn grym. Mae'r drefn o storio olew tanwydd amaethyddol a arferai fod yn destun Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010 bellach yn destun Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016.

Gallwch weld canllawiau ar y rheoliadau newydd ynghylch storio olew drwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol:
http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/oil-storage-standards/?lang=cy

© Hawlfraint y Goron 2010. Eiddo'r Goron yw hawlfraint y trefniant argraffyddol a'r dyluniad ISBN: 978 0 7504 5884 9 WAG10-10536 F101

Rheoliadau Deddf Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010

"Rheoliadau SSOTA Cymru"

CANLLAWIAU I FFERMWYR

CYNNWYS **TUD.**

Cyflwyniad **4**

Gofynion Cyffredinol **8**

Gofynion Penodol **12**
- **Cynhyrchu a Storio Silwair** **12**
- **Storfeydd Slyri** **17**
- **Storfeydd Olew Tanwydd Amaethyddol** **22**

Atodiad A
Ffurflenni, Taflenni Ffeithiau, a Chysylltiadau **24**

Atodiad B
Atodlenni o Reoliadau SSOTA Cymru **25**

Cyflwyniad

1. Mae'r canllawiau hyn yn disgrifio'r gofynion y mae'n rhaid i bobl (sef ffermwyr, ar y cyfan) yng Nghymru eu dilyn er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010, Offeryn Statudol 2010/1493 (W. 136)[1]; a elwir yn "Rheoliadau SSOTA Cymru." (Yng ngweddill y canllawiau hyn cyfeirir atynt fel "y Rheoliadau hyn" neu "y Rheoliadau".) Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli Rheoliadau a wnaed gyntaf ym 1991[2] ac maent mewn grym o 18 Mehefin 2010.

2. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ("yr Asiantaeth") yn gyfrifol am sicrhau ufudd-dod i'r Rheoliadau. Gellir cael cyngor ynghylch storio a rheoli maetholion cyffredinol oddi wrth yr Asiantaeth a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

3. Mae gofynion y Rheoliadau yn rhwymo mewn cyfraith. Amcan y canllawiau hyn yw eich helpu i ateb gofynion y Rheoliadau, a bydd yr asiantaeth yn gallu'ch cynorthwyo gydag unrhyw ymholiadau.

Pam mae angen y Rheoliadau hyn?

4. Mae'r Rheoliadau'n pennu safonau ar gyfer storio silwair, slyri ac olew tanwydd amaethyddol, er mwyn lleihau'r perygl o lygru dŵr. Mae'r sylweddau hyn i gyd wedi achosi digwyddiadau llygredd sylweddol, a hynny'n aml am nad oedd gan ffermydd ddigon o le storio, neu am fod y storfeydd o ansawdd gwael.

5. Gall elifiant silwair a thail anifeiliaid gyfrannu hefyd at lygru'r amgylchedd pan gânt eu gwasgaru ar dir y tu allan i'r tymor tyfu, neu mewn tywydd amhriodol.

Diffiniad o Slyri:

6. Diffinnir 'slyri' yn Rheoliad 2(1) Rheoliadau SSOTA Cymru fel 'deunydd hylifol neu led-hylifol wedi'i wneud o garthion a gynhyrchir gan dda byw tra bônt mewn buarth neu adeilad (gan gynnwys rhai a gedwir mewn llociau sglodion pren); neu gymysgedd yn cynnwys yn bennaf neu'n rhannol garthion da byw, deunydd gwely da byw, dŵr glaw a golchion o adeilad neu fuarth a ddefnyddir gan dda byw, ac o ansawdd sy'n caniatáu iddo gael ei bwmpio neu ei ryddhau drwy ddisgyrchiant ar unrhyw gam yn y broses drafod.'

At beth mae'r Rheoliadau'n cyfeirio?

7. Mae'r Rheoliadau'n cyfeirio at y canlynol:

[1] www.legislation.gov.uk/wsi/2010/1493/contents/made
[2] Rheoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) 1991 (S.I. 1991/324),

- **gwneud a storio silwair ac elifiant silwair**, gan gynnwys troi cnydau'n silwair, silwair a wneir mewn clampiau, byrnau silwair (mewn bag neu wedi'u lapio) a silwair cae (twmpathau cae, neu silwair heb ei fyrnu, mewn bag, fel Ag-Bags.)

- **systemau storio slyri**, gan gynnwys storfeydd ar gyfer elifiant gwanedig fel dŵr buarth budr, carthion, neu ddŵr ffo o storfeydd tail solat mewn buarthau, deunydd gwely da byw, golchion o adeiladau neu fuarthau a ddefnyddir gan dda byw, lagwnau, pyllau derbyn, tyrau, llociau sglodion pren a phibelli a sianeli cysylltiedig.

- **storfeydd olew tanwydd amaethyddol sydd uwchben y ddaear.**

8. Eich cyfrifoldeb chi yw dilyn y Rheoliadau os ydych yn rheoli neu'n gofalu am osodwaith a ddisgrifir yn y canllawiau hyn. Gall yr Asiantaeth gyflwyno hysbysiad ichi os bydd angen gwneud gwelliannau. Bydd angen i unrhyw anghydfod ynghylch pwy sydd â 'gofal, neu reolaeth' dros slyri gael ei ddatrys gan y llysoedd yn y pen draw, ond mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn mai ystyr arferol 'gofal, neu reolaeth' fyddai'r sawl sydd â'r *hawl a'r gallu* i reoli'r gosodwaith.

9. Dylai tenantiaid a landlordiaid yn enwedig fod yn glir ynghylch ble y gorwedd y cyfrifoldeb hwn. Fel rheol, y tenant fydd y sawl sydd â rheolaeth dros y gosodwaith, ond mewn achosion lle bo landlord yn cynllunio neu'n gosod gosodwaith, gellir dal y landlord yn gyfrifol.

10. Bydd gosodweithiau a oedd mewn defnydd, neu wedi'u hadeiladu, cyn Mawrth 1991, neu lle gwnaed contract i'w hadeiladu cyn Mawrth 1991 a'u cwblhau cyn Medi 1991, yn "adeileddau eithriedig"[3] i ddibenion y Rheoliadau hyn. Gweler paragraff 26 am fanylion pellach.

Beth sydd angen imi ei wneud i gydymffurfio â'r Rheoliadau?

11. Mae'r Rheoliadau'n pennu'r safonau cyfreithiol sylfaenol y mae'n rhaid eu cyrraedd, ond nid ydynt, ar y cyfan, yn dweud wrthych sut y dylech ateb y gofynion hyn. Dim ond ichi gyrraedd y safonau sylfaenol a bennir yn y Rheoliadau hyn, gallwch arfer disgresiwn wrth adeiladu gosodweithiau cyn belled â'ch bod yn cydymffurfio hefyd â'r ddyletswydd i osgoi achosi llygredd.

12. Mae'r canllawiau hyn wedi'u rhannu'n ddwy adran. Yn yr adran gyntaf amlinellir y gofynion cyffredinol ar gyfer cydymffurfio â'r Rheoliadau, ac amlygir pa baragraffau o'r ail adran y dylech edrych arnynt i gael mwy o fanylion am y gofynion penodol.

[3] Rheoliad 6

Beth yw'r cosbau posibl os na fyddaf yn cydymffurfio?

13. Bydd unrhyw un sy'n torri'r Rheoliadau'n euog o drosedd. Mae'r rhan fwyaf o droseddau dan y rheoliadau'n gosbadwy â dirwy hyd at yr uchafswm statudol (sef £5,000 ar adeg cyhoeddi'r canllawiau hyn) os ceir dyfarniad euog mewn Llys Ynadon. Os gwrandewir yr achos yn Llys y Goron gallai'r gosb fod yn ddirwy heb uchafswm.

Pa gefnogaeth sydd ar gael i'm helpu i gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn?

14. Fe wnaiff yr Asiantaeth gynnig help ac arweiniad[4] i gydymffurfio â'r Rheoliadau, a ffyrdd eraill o leihau ac atal llygredd. Mae'r Asiantaeth wedi cynhyrchu cyfres o ffurflenni hefyd (gweler Atodiad A), sydd ar gael o swyddfeydd lleol ac ar wefan yr Asiantaeth. Gall y ffurflenni hyn eich helpu i roi'r wybodaeth ofynnol i'r Asiantaeth er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Hwyrach y bydd cyngor technegol am adeiladu gosodweithiau, gan gynnwys cyngor am ddefnyddiau priodol, i'w gael oddi wrth y cyflenwyr ac ymgynghorwyr amaethyddol.

15. Os digwydd llygredd, mae er lles i bawb y dylid cysylltu â'r Asiantaeth yn syth: rhif ffôn **Llinell Argyfwng** yr Asiantaeth yw **0800 807060**. Bydd rhoi gwybod yn fuan yn helpu i leihau effaith y llygredd, a'r gost o'i glirio.

[4] Gweler Canllawiau Adeiladu ADAS yn www.defra.gov.uk/environment/quality/water/waterquality/diffuse/nitrate/help-for-farmers.htm neu CIRIA 126 yn products.ihs.com/cis/Doc.aspx?AuthCode=&DocNum=82386

Gofynion Cyffredinol

Beth sydd angen imi ei wneud os ydw i am adeiladu neu osod storfa newydd?

16. Rhaid ichi hysbysu eich swyddfa Asiantaeth leol **mewn ysgrifen** am osodwaith newydd, neu un sydd wedi'i helaethu neu ei ailadeiladu'n sylweddol[5], o leiaf bythefnos cyn ei ddefnyddio (gweler Atodiad B am gyfeiriadau)[6]. Mae hyn yn cynnwys gwaith helaethu ac ailadeiladu sylweddol ar osodweithiau eithriedig (gweler paragraff 26 isod). O leiaf, mae'n rhaid ichi ddisgrifio:
    - y math o adeiledd; ac
    - ym mhle y mae.

17. Er mwyn i'r Asiantaeth fod yn fodlon fod y gosodwaith yn cydymffurfio â'r Rheoliadau, mae'n debyg y gofynnir ichi am wybodaeth ychwanegol am y maint, y cynllun a'r defnyddiau adeiladu a ddefnyddir. Mae gan yr Asiantaeth ffurflen (sydd ar gael ar ei gwefan ac yn ei swyddfeydd lleol) i'ch helpu i wneud hyn (Gweler Atodiad A).

18. Gall yr Asiantaeth gyflwyno Hysbysiad yn mynnu y gwneir gwelliannau ar osodwaith os nad yw o'r farn ei fod yn addas. Cysylltir â chi os mai felly y bydd. **Argymhellir yn gryf eich bod yn lleihau'r risg o adeiladu gosodwaith nad yw'n cydymffurfio, ac o gael Hysbysiad, drwy gynnwys yr Asiantaeth yn gynnar yn y broses gynllunio.**

Pa ofynion y mae'n rhaid i'm gosodwaith eu hateb?

19. Rhaid i osodweithiau ateb y gofynion canlynol:

Oes Parhad

20. Dan y Rheoliadau rhaid adeiladu pob gosodwaith ag oes parhad o 20 mlynedd o leiaf[7]. Ystyr hyn yw y disgwylir i'r gosodwaith bara – gyda gwaith cynnal priodol – am 20 mlynedd heb achosi, na bygwth achosi, llygredd, a pharhau i gydymffurfio â gofynion yr atodlen berthnasol i'r Rheoliadau. Os yw unrhyw ran o danc elifiant silwair yn is na'r ddaear, disgwylir i'r tanc gydymffurfio â gofynion paragraffau 4 a 5 atodlen 1 am 20 mlynedd heb waith cynnal[8]. Mae gan yr Asiantaeth ffurflen i'ch helpu i roi'r wybodaeth hon (gweler Atodiad A).

---

[5] I ddibenion y canllawiau hyn, ystyr "gosodwaith" yw seilo, system storio slyri neu fan storio tanwydd

[6] Rheoliad 9

[7] Atodlen 1, para 8 ar gyfer silwair; Atodlen 2, para 8 ar gyfer slyri ac Atodlen 3 para 3(b) ar gyfer olew tanwydd.

[8] Atodlen 1, para 9

Cynnal a Chadw

21. Pan fyddant mewn defnydd, rhaid i osodweithiau bob amser gyrraedd y safonau perfformiad a bennir yn yr Atodlenni i'r Rheoliadau (gweler Atodiad B – Atodlenni o Reoliadau SSOTA Cymru). Er enghraifft, rhaid ateb gofyniad am gael gwaelod anathraidd i bob gosodwaith sy'n destun y Rheoliadau[9]. Bydd arolygu'ch gosodweithiau'n aml yn gymorth i sicrhau y gwelir diffygion posibl ac y gellir eu cywiro cyn iddynt allu achosi problemau.

Parthau Diogelwch

22. Ni ddylid adeiladu gosodweithiau, na gwneud silwair, na storio silwair, elifiant, slyri nac olew tanwydd, o fewn **10 metr** i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol neu ddyfroedd arfordirol y gallai unrhyw ddŵr ollwng iddynt[10]. (Mae hyn yn cynnwys afonydd, llynnoedd, cronfeydd dŵr a chyrsiau dŵr llai fel nentydd a ffosydd yn ogystal â phibelli draenio mandyllog[11]). Pellterau **lleiaf** yw'r rhain a dylid eu cynyddu mewn lleoliadau sensitif, er enghraifft ger mewnlifoedd cyflenwad dŵr. Gall yr Asiantaeth roi cyngor ichi ynghylch y rhain.

23. Mae gan wahanol ddulliau o wneud silwair ofynion gwahanol o ran parthau diogelwch. (Mae'r manylion ym mharagraff 33 isod).

24. Caniateir draeniau anathraidd a phibelli seliedig (gan gynnwys pibelli seliedig sy'n cludo slyri) o fewn 10 metr i ddyfroedd mewndirol neu arfordirol. Er bod defnyddio pibelli draenio mandyllog o fewn 10 metr i unrhyw storfa slyri neu bwll derbyn (i symud dŵr daear eithriadol o uchel i ffwrdd) yn groes i'r Rheoliadau, **gellir** caniatáu hyn ar sail achos unigol, ar yr amod fod yr Asiantaeth wedi rhoi caniatâd (gweler paragraff 60).

Arweiniad

25. Mae'r *Cod Ymarfer Amaethyddol Da ar gyfer Gwarchod Dŵr, Pridd ac Aer Cymru*, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru[12], yn rhoi arweiniad pellach ynghylch adeiladau ac adeileddau ar ffermydd a allai achosi llygredd i ddŵr, aer neu bridd oddi wrth sylweddau nas rheolir gan SSOTA. Mae'n cynnwys cyngor hefyd am drin a thrafod solidau a hylifau yng nghyffiniau buarth y fferm i

[9] Atodlen 1, para 4(2) ar gyfer silwair; Atodlen 2, para 2 ar gyfer slyri ac Atodlen 3 para 3(a) ar gyfer olew tanwydd.
[10] Rheoliad 3(1)(a) ar gyfer silwair; Atodlen 2, para. 7 ar gyfer slyri ac Atodlen 3, para 7 ar gyfer olew tanwydd.
[11] Rhoddir diffiniad llawn "dyfroedd mewndirol neu arfordirol" yn Adran 104 Deddf Adnoddau Dŵr 1991.
[12] *The Code of Good Agricultural Practice For the Protection of Water, Soil and Air for Wales wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/codesofgoodagripractice/?lang=en*

osgoi llygredd, a sut i ddelio ag elifiannau sy'n ymddangos. Mae Adroddiad 126 "*Farm Waste Storage: Guidelines for Construction*"[13] gan Gymdeithas Ymchwil a Gwybodaeth y Diwydiant Adeiladu (CIRIA) yn rhoi arweiniad technegol ynghylch sut y gellir ateb y gofynion hyn ar gyfer gwahanol sylweddau llygrol.

Sut mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i storfeydd presennol, a beth yw 'Adeileddau Eithriedig'?

26. Mae'r Rheoliadau'n berthnasol i bob gosodwaith a ddefnyddiwyd, a adeiladwyd, a ailadeiladwyd yn sylweddol, neu a helaethwyd yn sylweddol ar ôl Medi 1991. Mae gosodweithiau a oedd mewn defnydd neu a adeiladwyd cyn mis Mawrth 1991 neu lle y gwnaed contract i'w hadeiladu cyn Mawrth a'i gwblhau cyn Medi 1991 yn "adeileddau eithriedig"[14] i ddibenion y Rheoliadau hyn, ac fel rheol gellir eu defnyddio, yn amodol ar ddau gyfyngiad:

    - Gall yr Asiantaeth fynnu bod adeileddau "eithriedig" yn cael eu gwella i'w codi i'r safonau a bennir yn y Rheoliadau drwy gyflwyno Hysbysiad dan Reoliad 7 yn pennu pa welliannau sy'n ofynnol a'r cyfnod amser ar gyfer cydymffurfio (gweler paragraffau 28 a 29 isod).

    - Pan fydd gosodwaith a fu gynt yn "eithriedig" (neu unrhyw osodwaith arall) wedi cael (neu yn cael) ei helaethu neu ei ailadeiladu'n sylweddol, bydd y Rheoliadau'n berthnasol i'r adeiledd hwnnw, a hynny i'r gosodwaith **cyfan** ac nid dim ond y rhan sydd newydd ei helaethu neu ei hailadeiladu. Er enghraifft, byddai gwaith ailgyfarparu mawr ar storfa "eithriedig" yn dod â'r storfa a'i draeniau a'i thanciau cysylltiedig o fewn sgôp y Rheoliadau, ond ni fyddai gwaith atgyweirio neu fân newidiadau i bwll derbyn neu sianeli ddim o reidrwydd yn peri i danc storio slyri golli ei statws eithriedig. Bydd "ailadeiladu'n sylweddol" yn aml yn golygu bod newidiadau adeileddol arwyddocaol wedi digwydd.

27. Cyn dechrau gwaith i helaethu neu ailadeiladu adeiledd, fe'ch cynghorir yn gryf i drafod eich cynlluniau gyda'r Asiantaeth. Cofiwch fod yn rhaid ichi hysbysu'r Asiantaeth cyn dechrau defnyddio gosodweithiau newydd, neu rai sydd wedi'u haltro neu eu hailadeiladu'n sylweddol.

Beth fydd yn digwydd os yw'r Asiantaeth yn credu bod perygl llygredd?

28. Mae gan yr Asiantaeth bwerau i gyflwyno hysbysiad ichi yn mynnu eich bod yn gweithredu i wella gosodweithiau presennol lle bo'r Asiantaeth o'r farn fod perygl sylweddol y gellid llygru 'dyfroedd

[13] ISBN 0 86017 352 6, ISSN 0305 408X; cyhoeddwyd gan Gymdeithas Ymchwil a Gwybodaeth y Diwydiant Adeiladu, 6 Storey's Gate, Westminster, Llundain SW1P 3AU.
[14] Rheoliad 6

rheoledig'[15]. (Gall hyn gynnwys safleoedd silwair mewn cae a gosodweithiau sydd fel arall yn "eithriedig"). Rhaid i'r camau a fynnir gan yr Hysbysiad fod yn briodol i'r gwaith o leihau perygl llygredd. (Er enghraifft, mynnu y darperir storfa slyri ddigonol).

29. Bydd gennych o leiaf 28 diwrnod i gydymffurfio â'r Hysbysiad. Gall yr Asiantaeth ymestyn y cyfnod hwn i wneud lwfans am, er enghraifft, yr amser a gymer i gael caniatâd cynllunio, neu i drefnu i gontractwyr wneud y gwaith, neu amodau'r tywydd neu'r safle.

Alla i apelio yn erbyn Hysbysiad a gyflwynir gan yr Asiantaeth?

30. Gall ffermwr apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn Hysbysiad a gyflwynir gan yr Asiantaeth. Os bydd ffarmwr yn dymuno apelio yn erbyn Hysbysiad a gyflwynwyd iddo/iddi gan yr Asiantaeth rhaid gwneud hynny mewn ysgrifen o fewn 28 diwrnod i'r diwrnod ar ôl y dyddiad pryd y cyflwynwyd yr Hysbysiad. Mae gennych chi a'r Asiantaeth yr hawl i ofyn am wrandawiad llafar gan y sawl a benodwyd i benderfynu ar eich apêl. Dylid cyfeirio apeliadau yng Nghymru i'r cyfeiriad canlynol:
Cangen Rheoli Tir yn Gynaliadwy
Is-adran Datblygu Ffermydd
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR

ac anfon copi i Asiantaeth yr Amgylchedd yn y cyfeiriad a roddir yn yr Hysbysiad. Os bydd apêl yn llwyddiannus, gellir tynnu'r Hysbysiad yn ôl neu ei addasu neu estyn y cyfnod cydymffurfio. Ar ôl yr apêl, os na fydd yr Hysbysiad wedi'i dynnu'n ôl ac nad yw'r cyfnod cydymffurfio wedi'i estyn, cyfrifir bod y cyfnod cydymffurfio'n dod i ben ar ddiwrnod penderfynu'r apêl, oni bai fod Gweinidogion Cymru'n penderfynu estyn y cyfnod cydymffurfio. Gallai Gweinidogion Cymru ystyried, wrth benderfynu a ydynt am estyn y cyfnod cydymffurfio, a fydd yn rhesymol, yn bosibl neu'n ymarferol i'r apelydd gydymffurfio â'r penderfyniad cyn gynted ag y bo wedi'i gyhoeddi.[16]

31. Rhaid i'r apêl gynnwys datganiad llawn o'r sail dros apelio a dylai hefyd gynnwys y dogfennau canlynol:

- copi o'r Hysbysiad a gyflwynwyd i'r ffermwr;
- unrhyw gyfathrebiad perthnasol;

[15] Diffinnir 'dyfroedd rheoledig' yn Adran 104 Deddf Adnoddau Dŵr 1991.
[16] Adrannau 8(5) ac 8(6) o'r Rheoliadau.

- cynllun o'r fferm, yn dangos y gosodwaith dan sylw a'i berthynas â chyrsiau dŵr a draeniau, a;

- datganiad mai'r ffermwr y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo yw'r apelydd, neu ddatganiad gan y ffermwr yn awdurdodi rhywun i weithredu ar ei ran/rhan.

Gofynion Penodol

Cynhyrchu a Storio Silwair: Rheoliad 3 ac Atodlen 1 yn Atodiad B

Gwneud silwair a storio silwair dan y Rheoliadau

32. Rhaid adeiladu seilos yn unol â'r safonau adeiladu a amlinellir yn Atodlen 1 y rheoliadau (sydd i'w gweld yn llawn yn Atodiad B ac a drafodir ym mharagraffau 41-53 isod.

33. Mae Parthau Diogelwch Silwair (Gweler Paragraff 22 uchod) fel a ganlyn:
    - **Silwair mewn seilos:** ni chaniateir ei wneud na'i storio o fewn 10 metr i unrhyw ddyfroedd mewndirol nac arfordirol y gallai elifiant fynd iddynt.
    - **Silwair mewn byrnau**
        - rhaid ei selio mewn pilen anathraidd neu ei fagio[17] ac ni ddylid ei wneud, ei storio[18], ei agor na'i ddadlapio[19] o fewn 10 metr i unrhyw ddyfroedd mewndirol nac arfordirol y gallai elifiant fynd iddynt.
    - **Silwair mewn cae (silwair wedi'i storio ar dir agored)**
        - ar ben y cyfyngiad deg metr i silwair mewn byrnau, ni ddylid ei wneud na'i storio o fewn 50 metr i 'ffynhonnell cyflenwad dŵr gwarchodedig'[20].

34. Diffinnir 'ffynonellau cyflenwad dŵr gwarchodedig' yn Rheoliad 3(2)[21] Rheoliadau SSOTA Cymru fel mannau lle 'tynnir dŵr i'w yfed gan y cyhoedd, neu i'w ddefnyddio yn llaethdai ffermydd, neu i baratoi bwyd dynol'[22]. Os nad ydych yn siŵr a yw cyflenwad dŵr cyfagos wedi'i warchod gan y rheoliadau, dylech gysylltu â'r Asiantaeth am gyngor.

35. Lle gwneir silwair mewn caeau, rhaid hysbysu'r Asiantaeth am y fan lle caiff y silwair ei storio o leiaf bythefnos cyn dechrau defnyddio'r safle hwnnw.[23] Ar ôl dechrau gwneud silwair, os sefydlir pwynt tynnu dŵr arall, fel rheol ni fydd angen stopio neu newid y drefn o wneud silwair ar

[17] Rheoliad 3(1)(b)(i)
[18] Rheoliad 3(1)(b)(ii)
[19] Rheoliad 3(4)
[20] Dywed Rheoliad 3(2) "I ddiben paragraff (1)(c)(ii), mae ffynhonnell cyflenwad dŵr yn ffynhonnell cyflenwad dŵr gwarchodedig os— (a) bydd unrhyw waith tynnu dŵr perthnasol o'r ffynhonnell wedi'i drwyddedu dan Ran II Deddf Adnoddau Dŵr 1991; neu (b) os oedd y sawl sy'n gwneud neu'n storio'r silwair yn ymwybodol o leoliad y ffynhonnell— (i)cyn dechrau gwneud y silwair; neu (ii) os gwnaed y silwair yn rhywle arall, cyn ei storio ar y tir dan sylw.

[21] Rheoliad 3(1)(c)(ii)
[22] Hefyd yn berthnasol i waith tynnu dŵr trwyddedig dan Ran II Deddf Adnoddau Dŵr 1991 ac i'r ffynonellau didrwydded hynny sy'n hysbys i'r gwneuthurwr silwair cyn dechrau gwneud neu storio silwair.
[23] Rheoliad 3(1)(c)(i)

y safle hwnnw am y tymor hwnnw, er bod hyn yn dechnegol yn torri'r Rheoliadau. Ond am y tymor nesaf dylai lleoliad unrhyw silwair mewn caeau ystyried y pwynt tynnu dŵr newydd.

36. Dylai silwair a symudir o'r lle y cafodd ei silweirio gyntaf gael ei storio yn y tymor hir yn unol â'r Rheoliadau perthnasol i adeileddau, adeileddau "Eithriedig", neu storfeydd mewn caeau.

37. Nid yw'r Rheoliadau'n berthnasol i silwair tra bo'n cael ei storio dros dro mewn cynhwysydd ar gyfer ei gludo[24]. Nid yw "dros dro" wedi'i ddiffinio yn y Rheoliadau, ond dylid ei ddarllen i olygu y dylai unrhyw gludo silwair gael ei wneud heb oedi diangen. Nid yw silwair sydd wedi'i gymryd o seilo fesul tamaid bach ar gyfer bwydo anifeiliaid yn rheolaidd yn gaeth i'r gofynion storio, a beth bynnag gellir ei gadw yn yr awyr agored heb fod mewn byrnau (ar yr amod y cymerir camau atal llygredd sylfaenol fel y'u hamlinellir yn y Cod Ymarfer Amaethyddol Da). **Ni** fydd y ddarpariaeth hon yn amddiffyniad am unrhyw lygredd sy'n digwydd am fod silwair heb ei warchod wedi'i adael yn agored.

38. Does dim angen ichi storio byrnau silwair (wedi'u lapio neu eu bagio) ar lawr sydd wedi'i adeiladu'n arbennig, ond **rhaid** ichi sicrhau os caiff ei storio'n uniongyrchol ar y ddaear nad yw'n gollwng elifiant i ddŵr, gan y gallai hyn fod yn drosedd dan y Rheoliadau.

39. Rhaid gofalu casglu a storio unrhyw elifiant silwair heb achosi llygredd, gan y gallai hyn fod yn drosedd dan y Rheoliadau. Gellir defnyddio elifiant silwair i'w fwydo i dda byw neu, ar ôl ei wanhau, gellir ei daenu ar dir amaethyddol fel gwrtaith, o fewn yr amodau sy'n ofynnol dan y Cod Ymarfer Amaethyddol Da, y Cynllun Gweithredu Nitradau, neu gynllun rheoleiddiol arall.

40. Caniateir gwneud silwair mewn twmpathau mewn caeau neu mewn bagiau heb eu byrnu, heb fod angen llawr anathraidd, ar yr amod fod y safle'n addas ac yr hysbysir yr Asiantaeth o leiaf bythefnos cyn dechrau defnyddio'r safle (gweler paragraffau 16 a 49-53).

Storfeydd Silwair: Gweler Atodlen 1 yn Atodiad B

41. Lle caiff silwair ei storio mewn seilos, rhaid bod gwaelod anathraidd i'r seilos yn ymestyn y tu hwnt i unrhyw waliau, a draeniau anathraidd o gwmpas yr ymyl yn llifo i danc elifiant o gynhwysedd digonol. Rhaid i unrhyw sianeli, draeniau, pibellau a thanciau cysylltiedig fod yn anathraidd hefyd. Rhaid i'r gwaelod a'r sianeli, draeniau, pibellau a thanciau cysylltiedig wrthsefyll cyrydiad gan silwair ac elifiant silwair.[25]

42. Yn ogystal â gwaelodion a ddyluniwyd yn unol â'r cod ymarfer ar gyfer dylunio adeileddau concrit i ddal hylifau dyfrllyd [26], mae'r Rheoliadau[27]

[24] Rheoliad 3(3)
[25] Atodlen 1, para 2, para 4(2) a para 5.
[26] (BS 8007:1987)
[27] Atodlen 1, para 4(1)

bellach yn caniatáu i waelodion gael eu hadeiladu gan ddefnyddio asffalt wedi'i rolio'n boeth, ar yr amod y gwneir hyn yn unol â'r cod ymarfer ar gyfer dewis a defnyddio defnyddiau adeiladu[28].

43. Nid oes rhaid cael waliau ar seilos, ond lle ceir waliau, rhaid eu gosod **o fewn draeniau terfyn** y gwaelod[29]. Rhaid i unrhyw waliau allu gwrthsefyll llwythiadau wal a bennir gan BS 5502 rhan 22 2003, ni ddylid eu llwytho'r tu hwnt i'r fanyleb dyluniad, a rhaid dangos hysbysiadau ar y waliau'n dangos y llwythiadau hyn.[30]

44. Mae'n debyg y bydd angen i ffermwyr ofyn am gyngor proffesiynol er mwyn sicrhau y cyflawnir y safonau gofynnol. Bydd angen i'r gosodweithiau hyn ateb y gofyniad "oes parhad" o 20 mlynedd gyda chynnal a chadw.

45. Rhaid cael systemau casglu elifiant i ddal unrhyw hylif a gynhyrchir. Rhaid i gynhwysedd lleiaf tanciau elifiant gyfateb i gynhwysedd y seilo fel a ddangosir yn nhabl 1 isod[31]. Yn y rhan fwyaf o achosion dylai'r cynwyseddau hyn ddarparu o leiaf ddeuddydd o storfa ar anterth y llif. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw'r tanc elifiant yn darparu storfa fel a nodir isod, bydd yn dal i fod yn drosedd os achosir llygredd.

Tabl 1: Cynhwysedd lleiaf tanciau elifiant silwair mewn perthynas â chynhwysedd seilos

Cynhwysedd y Seilo	Cynhwysedd Lleiaf y Tanc Elifiant
Llai na 1500^3	20 litr i bob $1m^3$ o gynhwysedd y seilo
1500^3 neu fwy	30,000 litr a 6.7 litr i bob $1m^3$ o gynhwysedd y seilo dros 1500^3
500m3	10,000 litr
1000m3	20,000 litr
1500m3	30,000 litr
2000m3	33350 litr- h.y. 30,000 +3350
2500m3	36700 litr- h.y. 30,000 + 6700
3000m3	40050 litr- h.y. 30,000 +10050
4000m3	46750 litr- h.y. 30,000 +16750

46. Yn y rhan fwyaf o achosion dylai'r cynwyseddau hyn ddarparu o leiaf ddeuddydd o storfa ar anterth y llif. Fodd bynnag, os yw'r tanc elifiant yn darparu storfa annigonol a bod llygredd yn digwydd, byddai hyn yn drosedd. Nid yw cynhwysedd tanciau elifiant yn debygol o fod yn ddigonol ar gyfer storio gwerth deuddydd o silwair heb wywo neu silwair wedi'i wneud mewn seilo heb do. Dylech edrych a gwagu'ch

[28] BS5502, Rhan 21 1990
[29] Atodlen 1, para 2(a) a (b)
[30] Atodlen 1, para 7
[31] Atodlen 1, para 3

tanciau cyn amled ag y bo angen. O fewn ardaloedd PPN (NVZ), bydd yr elifiant silwair yn destun rheolau'r PPN ar gyfer storio a thaenu gwrteithiau organig sydd â Nitrogen uchel ar gael.

47. Os yw unrhyw ran o'r tanc elifiant o dan lefel y ddaear, rhaid iddi fod yn anathraidd ac yn gallu gwrthsefyll elifiant silwair am 20 mlynedd **heb waith cynnal a chadw**[32]. Gall y tanc naill ai fod yn un parod un-darn neu gael ei adeiladu ar y safle. Dylech drafod eich bwriadau gyda'r Asiantaeth yn y cyfnod cynllunio, gan y bydd ar yr Asiantaeth eisiau cadarnhad ysgrifenedig yr atebwyd gofynion yr Atodlen. Gall yr Asiantaeth ddarparu ffurflen i'ch helpu i ddarparu'r cadarnhad hwn (gweler Atodiad A).

48. Mewn rhai achosion efallai y byddwch am storio elifiant silwair a slyri yn yr un tanc. **Gall cymysgu neu ailgylchredeg slyri ryddhau nwyon peryglus sy'n farwol i bobl ac anifeiliaid. Peidiwch byth â rhoi elifiant silwair mewn storfeydd slyri tanddaearol, gan y gall problemau tebyg ddigwydd.** Os defnyddir y dull storio hwn rhaid i'r cynhwysydd storio fod wedi'i gynllunio i wrthsefyll y ddau fath o elifiant heb eu gwanhau, ac, wrth gwrs, bod yn ddigon mawr i fodloni gofynion Atodlenni 1 a 2.

Silwair Cae

49. Ystyr 'silwair cae' yw twmpathau a wneir ar dir agored mewn caeau, lle nad oes unrhyw fath o gloddio, na lloriau na waliau ar y safle. Gall safleoedd fod wedi'u lefelu ychydig drwy lenwi pantiau bach. Sylwer **na ddylid** cloddio'r uwchbridd o gwbl. Mae hyn yn bwysig iawn gan fod angen pridd sydd heb ei aflonyddu i helpu cadw unrhyw elifiant silwair y gellid ei gynhyrchu a lleihau'r perygl o lygredd. Os oes unrhyw gloddio, waliau neu loriau yna rhaid dilyn gofynion llawn Atodlen 1. Mae gwneud a storio silwair mewn 'bagiau swmp' heb eu byrnu yn silwair cae.

50. Caniateir gwneud a storio silwair cae mewn twmpathau neu mewn bagiau swmp (heb eu byrnu) heb waelod anathraidd na waliau, ar yr amod bod y safle'n addas. Dylech ddewis safle gwastad a gwneud asesiad gofalus o'r perygl llygredd posibl i ddyfroedd rheoledig. Dylid trafod cynigion gyda'r Asiantaeth ymhell cyn gwneud y silwair a, beth bynnag, rhaid hysbysu'r Asiantaeth am y safle bwriedig o leiaf bythefnos cyn dechrau ei ddefnyddio. Gall yr Asiantaeth ddarparu ffurflen safonol ichi ei defnyddio i wneud yr hysbysiad hwn (gweler Atodiad A).

51. Wrth ystyried addasrwydd safle, bydd yr Asiantaeth yn ystyried goleddf, athreiddedd y pridd, cywasgiad y pridd, faint o hollti ac agennu sydd yn y pridd, a'r perygl o lygru dŵr daear a dŵr wyneb. Mae ffactorau eraill yn cynnwys agosrwydd ffyrdd a thraciau fferm (a all gynyddu'r perygl i ddŵr ffo gyrraedd dyfroedd wyneb) neu fodolaeth ardaloedd gwarchodedig fel 'ffynonellau cyflenwad dŵr gwarchodedig' (gweler

[32] Gweler atodlen 1, paragraffau 4 a 5 am fanylion.

paragraff 34 uchod), neu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA).

52. Rhaid i safleoedd silwair cae ateb gofynion y Rheoliadau. Rhaid i chi:

- Hysbysu'r Asiantaeth am y safle bwriedig o leiaf bythefnos cyn dechrau defnyddio'r safle hwnnw. Os yw'r safle'n dderbyniol gan yr Asiantaeth, ni fydd angen hysbysiad pellach oni bai fod bwriad i ehangu'r safle hwnnw neu fod angen ystyried safleoedd newydd.

- Lleoli'r safle'n unol â pharagraff 22 uchod.

- Lleoli'r safle o leiaf 50 metr i ffwrdd oddi wrth ffynonellau dŵr yn unol â pharagraff 34 uchod. Gall ffynonellau dŵr fod wedi'u lleoli ar eiddo cyfagos a dylech ymchwilio'n drwyadl i'r fath bosibilrwydd os yw eich safle bwriedig o fewn 50 metr i'r ffin ag eiddo cyfagos.

53. Os gwnewch silwair cae ar safle a chithau heb hysbysu'r Asiantaeth na'i rhagflaenydd, sef yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol ('NRA'), neu ar safle a wrthodwyd gan yr Asiantaeth neu'r Awdurdod Afonydd, byddwch yn torri'r Rheoliadau, a gellir eich erlyn.

Storfeydd Slyri: Rheoliad 4 ac Atodlen 2 yn Atodiad B

Systemau storio slyri sy'n dod dan y Rheoliadau

54. Mae'r Rheoliadau'n berthnasol i bob math o systemau storio slyri, gan gynnwys rhai wedi'u gwneud o bridd, ond nid i danceri a ddefnyddir i gludo slyri ar ffyrdd neu o gwmpas fferm, ac a ddefnyddir i storio slyri dros dro. Rhaid i storfeydd slyri sy'n cynnwys powndiau cloddiau pridd sydd newydd eu hadeiladu, wedi'u helaethu'n sylweddol neu wedi'u hailadeiladu'n sylweddol ar ôl Medi 1991 fod wedi'u hadeiladu'n unol â'r safonau adeiladu a bennir yn Atodlen 2 yn Atodiad B. Dylid ystyried powndiau cloddiau pridd fel tanciau storio slyri i ddibenion y Safon Brydeinig gyfredol (BS 5502: rhan 50 1993).

55. Gall storfeydd slyri presennol a adeiladwyd cyn Medi 1991 ddal i gael eu defnyddio heb eu haltro cyn belled â'u bod yn gymwys fel "adeiledd eithriedig" (gweler paragraff 26 uchod a Rheoliad 6), oni bai fod yr Asiantaeth yn pennu bod angen gwneud gwaith pellach.

56. I ddiben y Rheoliadau hyn, mae dŵr ffo o storfeydd tail solid, llociau gwely sglodion neu wellt, neu badiau atal [33] yn cyfrif fel slyri. Rhaid ei gasglu a'i storio naill ai'n annibynnol, neu yn y brif system storio slyri. Yn llawer o lociau does dim darpariaeth i storio draeniad. Gan fod gan lociau botensial sylweddol i lygru dyfroedd rheoledig, bydd yr Asiantaeth fel rheol yn mynnu bod y lloc yn cael ei addasu i sicrhau y cesglir y draeniad a'i ddal o fewn y system slyri.

Safonau adeiladu ar gyfer storfeydd slyri a phyllau derbyn: Atodlen 2

57. Mae gofynion cyffredinol am i waliau a lloriau pob tanc slyri, tanc cysylltiedig, pwll derbyn, pibell a sianel fod yn anathraidd. Rhaid i bob tanc slyri, tanc cysylltiedig, pwll derbyn, pibell a sianel hefyd gyrraedd safonau ar gyfer gwarchod rhag cyrydiad fel a amlinellir yn y Safon Brydeinig gyfredol (BS 5502: rhan 50 1993)[34]. Rhaid i lawr a waliau'r tanc slyri ac unrhyw bwll derbyn cysylltiedig allu gwrthsefyll y

[33] Mae **llociau sglodion** fel arfer yn systemau parhaol, heb do, wedi'u draenio, gyda gwely o sglodion pren, a ddefnyddir i gadw da byw. Nid oes ganddynt leinin anathraidd, felly gallent lygru dŵr daear ac maent yn annerbyniol yn y rhan fwyaf o lefydd. Mae **padiau atal** yn debyg i lociau, ond un ai'n gorwedd ar isbridd anathraidd, neu â leinin addas, gyda phibellau'n cludo'r draeniad, sef slyri, i system slyri.
Fel rheol bydd yr Asiantaeth yn mynnu bod lloc sy'n sefyll ar bridd sy'n draenio'n rhydd a heb leinin anathraidd yn cael ei addasu ac y dylid sicrhau y caiff unrhyw draeniad ei gasglu a'i ddal o fewn system slyri.
Mae amrywiadau ar y systemau hyn, gan gynnwys systemau gwellt, gyda neu heb leinin, a all fod yn dderbyniol ar sail achos unigol. Cyn dechrau adeiladu, dylid cael cyngor gan yr Asiantaeth.

[34] Atodlen 2, para. 2 a 3

llwythiadau a bennir yn BS 5502: rhan 50 1993[35]. Mae'r angen i gydymffurfio â'r gofynion dylunio yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau'n golygu bron yn sicr y bydd angen cyngor proffesiynol er mwyn cynllunio ac adeiladu pob gosodwaith slyri gan gynnwys powndiau cloddiau pridd. Bydd angen gwaith ychwanegol sylweddol ar storfeydd cloddiau pridd os canfyddir fod y defnydd sydd yn ei le fel llawr yn athraidd. Mae pridd a chanddo gynnwys clai o 20-30% fel rheol yn ddelfrydol ar gyfer cloddiau sy'n sad ac yn gwrthsefyll hollti. Gellir defnyddio cynnwys clai uwch ar gyfer y llawr. Beth bynnag, dylid cadarnhau addasrwydd y defnydd drwy ddadansoddiad mewn labordy pridd a'i wirio gan beiriannydd sifil os yn bosib. Rhaid cael pridd anathraidd hyd at ddyfnder o un metr o leiaf o dan waelod y storfa. Lle nad yw'r defnydd yn addas, yna gellir cludo deunydd addas i'r fan a'r lle, neu dylid defnyddio leinin synthetig anathraidd.

58. At hynny, i storfeydd sydd â waliau'n gollwng, rhaid i'r llawr ymestyn y tu hwnt i'w waliau a chynnwys draeniau terfyn i ddal unrhyw slyri a fydd wedi dianc. Wedyn rhaid i'r elifiant hwn ddraenio i danc elifiant sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn[36]. Gellir adeiladu darpariaeth wrth gefn i mewn i'r storfa. Gallai hyn gynnwys codi ymylon allanol y draeniau terfyn i gasglu unrhyw slyri sy'n tasgu, ond cynghorir ffermwyr i siarad â staff yr Asiantaeth am bob achos unigol, cyn cadarnhau cynlluniau.

59. Rhaid i unrhyw bibelli draenio ar danc storio slyri, tanc elifiant neu bwll derbyn gynnwys dwy falf mewn cyfres, y naill a'r llall yn abl i atal y llif slyri a'r naill a'r llall wedi'u cloi ar gau pan nad ydynt mewn defnydd. Nid yw hyn yn berthnasol i danc storio slyri sy'n draenio trwy bibell i danc storio slyri arall os yw'r tanc arall yr un mor fawr neu'n fwy, neu os yw pennau'r tanciau ar yr un lefel[37]. Rhagofal diogelwch yw'r gofyniad am ddwy falf dan atodlen 2, para 10: mae'r ail falf yn gweithredu fel falf warchod rhag i'r gyntaf fethu. Rhaid i gynllun a lleoliad y falfiau roi ystyriaeth i'r posibilrwydd y gallai un darn o sbwriel rwystro'r ddwy falf pe caent eu gosod yn rhy agos at ei gilydd, felly rhaid cael o leiaf un metr o bellter rhwng y ddwy falf. Dylai'r ddwy falf fod wedi'u cynllunio fel y gellir defnyddio digon o rym i dorri drwy groniadau o ddeunydd gwelyo a all basio drwy'r system yn rheolaidd.

60. Efallai na fydd modd osgoi lleoli storfeydd mewn ardaloedd lle mae'r lefel trwythiad yn uchel, ond gallai achosi i'r gosodweithiau arnofio os na chymerir camau ychwanegol. I leihau'r perygl o arnofio heb ddefnyddio gormodedd o goncrit, efallai y caniateir gosod draeniau rhyddhau pwysedd dŵr daear. Gan fod y rhain yn debygol o gael eu lleoli o fewn 10 metr i'r gosodwaith ac y cyfrifir eu bod yn 'gwrs dŵr', bydd angen cytundeb yr Asiantaeth i'w wneud yn gyfreithlon. Bydd gofyn ichi gadarnhau bod y lefel trwythiad yn uchel, a bod y cynllun yn ymgorffori pwyntiau archwilio.

[35] Atodlen 2, para 4
[36] Atodlen 2, para 9
[37] Atodlen 2, para 10

Pennu maint storfeydd slyri a phyllau derbyn

61. Ar ffermydd lle taenir y slyri ar y tir, mae gofyniad fel rheol ar gyfer faint o slyri a gynhyrchir mewn pedwar mis ar y safle[38]. Efallai y bydd rhaid cael mwy o le storio mewn ambell achos, a chyfiawnhad dros lai mewn achosion eraill. Rhaid i hyn roi ystyriaeth i gyfraddau ac amserau defnyddio slyri, cynhwysedd tanciau storio slyri eraill, faint o law sy'n debygol o gyfrannu at y cynnwys yn ystod y cyfnod hwnnw (gweler paragraff 68 isod) a'r angen i ddarparu o leiaf 750mm neu 300mm o ofod gorlif (gweler paragraff 66-67 isod). **Mewn Parthau Perygl Nitradau (PPN) ceir rheolau gwahanol ynglŷn â storio, a'r lle storio y dylech ei ddarparu yw'r mwyaf o'r ddau (yn y rhan fwyaf o achosion, gofyniad y Rhaglen Weithredu ar Nitradau fydd hwn).**

62. Bydd rhaid i ffermydd mewn rhai ardaloedd, yn enwedig lle ceir mwy o law na'r cyfartaledd a lle mae'r tir yn drwm, gael cryn dipyn yn fwy na phedwar mis o gynhwysedd storio slyri. Er enghraifft, lle mae cyfyngiad ar fynediad i dir addas er mwyn taenu ar dir, cynghorir ffermwyr i ddarparu'r cynhwysedd ychwanegol hwn i osgoi'r perygl o lygru dŵr ac o gael eu herlyn yn sgil hynny.

63. Gall eich swyddfa Asiantaeth ranbarthol leol roi arweiniad cyffredinol ynghylch ble y byddai'n ddoeth darparu mwy na 4 mis o storfa. Fodd bynnag, efallai y bydd ffermwyr yn gweld mai buddiol yw cymryd cyngor proffesiynol ychwanegol am eu gofynion storio gan eu hymgynghorydd amaethyddol.

64. Rhaid i ffermwyr sy'n teimlo bod ganddynt ddigon o dir diogel i'w galluogi i weithredu'n foddhaol gyda llai na 4 mis o storfa ymgynghori â'r Asiantaeth i drafod eu cynlluniau. Bydd angen iddynt ddangos i'r Asiantaeth nad yw'r system yn peryglu'r amgylchedd prin ddim. I gyfiawnhau cynhwysedd storio llai, bydd disgwyl fel arfer ichi ddarparu Cynllun Rheoli Tail ynghyd â mesurau i ddangos defnydd effeithiol o faetholion mewn tail, a mesurau rheoli risgiau llygredd, gan gynnwys llygredd tryledol, neu niwed i'r pridd gan weithgareddau taenu'r gaeaf.

65. Wrth gyfrifo maint lleiaf unrhyw osodwaith slyri, rhaid cynnwys darpariaeth ar gyfer y symiau ***tebygol*** o ddŵr glaw fydd yn disgyn yn uniongyrchol i mewn i'r storfa ac ar fannau sy'n draenio i mewn i'r storfa (DS: Mae'r diffiniad o "slyri" yn cynnwys dŵr glaw a golchion buarth yn gymysg â biswail). Cymerir *glawiad tebygol* fel glawiad y gellir ei ddisgwyl unwaith bob pum mlynedd. Yn achos storfa slyri, fel rheol defnyddir y glawiad a ddisgwylir unwaith bob pum mlynedd am y cyfnod o Dachwedd i Chwefror, gan gynnwys y ddau fis hynny. Gall rhoi to ar eich storfeydd slyri a'ch buarthau, a defnyddio technegau gwahanu dŵr glân/budr, leihau maint y dŵr glaw a fydd yn cymysgu â slyri, ac felly leihau'r gofyniad am storfa.

66. Ar gyfer storfeydd clawdd pridd, wrth gyfrifo cynhwysedd rhaid ichi ganiatáu hefyd ar gyfer cynhwysedd ychwanegol i ddarparu gofod gorlif

[38] Atodlen 2, para 6(2)

o 750mm o leiaf. Rhaid peidio â pheryglu'r gofod gorlif hwn oherwydd y risg i'r adeiledd gael ei wanhau.[39] Gwyliwch lefel y slyri'n rheolaidd a gwnewch drefniadau i daenu slyri ar dir neu ei gludo ymaith yn ddiogel er mwyn cynnal y gofod gorlif. Rhaid cymryd gofal arbennig i sicrhau nad yw lagwnau neu storfeydd yn gorlifo. Gallai gorlifiad arwain at erlyniad am lygredd.

67. Mae gofyn cael o leiaf 300mm o ofod gorlif wrth gyfrifo cynhwysedd storfeydd a adeiladwyd o ddefnyddiau ar wahân i bridd. Ar gyfer y storfeydd hyn, dim ond mewn **amgylchiadau eithriadol** y dylid cyfaddawdu ar y gofod gorlif a dylid tynnu slyri gormodol oddi yno ar y cyfle cyntaf.

68. Ar gyfer cyfrifo maint unrhyw gyfleusterau a ddefnyddir i storio slyri dros dro (fel pyllau derbyn a sianeli cysylltiedig) dylai'r system fod yn ddigon mawr i storio o leiaf ddeuddydd o gynhyrchiant slyri cyfunedig (yn cynnwys pob troeth, golchion parlwr ac ati) **a glawiad tebygol**.

Os defnyddir sianeli i storio slyri o'r fath:-

- Lle bydd y slyri'n llifo i'r pwll derbyn drwy sianel a reolir gan lifddor, rhaid i'r pwll derbyn fod yn ddigon mawr i ddal y swm mwyaf o slyri y gellid ei ollwng drwy agor unrhyw lifddor. Rhaid i sianeli sy'n arwain at y llifddor fod yn ddigonol i ddal gwerth deuddydd o slyri.

- Lle nad oes llifddor a bod pennau uchaf y sianeli yr un uchder â phen uchaf unrhyw bwll derbyn, rhaid i gynhwysedd y sianeli casglu ynghyd â'r pwll derbyn gyda'i gilydd fod yn ddigonol i ddal o leiaf gwerth deuddydd o slyri.

- Lle nad oes llifddor, a bod y sianeli'n uwch na'r pwll derbyn, rhaid i gynhwysedd y pwll derbyn ar ei ben ei hun fod yn ddigonol i ddal o leiaf gwerth deuddydd o slyri.

- Lle nad oes dim sianeli'n arwain i'r pwll derbyn, rhaid i'r pwll derbyn allu dal o leiaf gwerth deuddydd o slyri.

- Lle mae sianeli'n gollwng yn uniongyrchol i danc storio slyri does dim rhaid i'r sianeli gydymffurfio â'r gofyniad lleiafswm cynhwysedd storio.

69. Diffinnir 'glawiad deuddydd' fel y ffigur a adwaenir fel 'glawiad M5 48 awr', y gellir ei gael oddi wrth y Swyddfa Dywydd, neu ffynonellau masnachol eraill. **Gellir** cytuno mewn ysgrifen â'r Asiantaeth ar lwfans glawiad is ac felly ar gynhwysedd llai i'r pwll derbyn[40] ar gyfer gosodweithiau lle nad oes fawr ddim risg o achosi llygredd a lle mae mesurau diogelu priodol ar gael. Rhaid gofyn am arweiniad a derbyniad

[39] Atodlen 2, para 11
[40] Atodlen 2, para 5

gan yr Asiantaeth a fydd yn asesu achosion unigol o safbwynt cynllun, adeiladedd a threfniadau wrth gefn rhag ofn i'r system fethu.

Storfeydd olew tanwydd amaethyddol: Rheoliad 5 ac Atodlen 3 yn Atodiad B

Storfeydd tanwydd y mae'r Rheoliadau'n effeithio arnynt

70. Mae'r Rheoliadau mewn grym lle mae cyfanswm yr olew tanwydd a gaiff ei storio ar y fferm yn fwy na 1500 litr[41]. Ni chaiff olew tanwydd domestig, a gaiff ei storio ar wahân, ei gynnwys yn y 1500 litr, nac olew tanwydd a gedwir dros dro mewn tancer i'w gludo ar y ffordd neu o gwmpas y fferm[42].

71. Lle mae'r Rheoliadau mewn grym, rhaid storio olew tanwydd:
    - mewn tanc storio tanwydd, neu
    - mewn tanc storio tanddaearol,
    - mewn man neu gyfleuster storio sy'n ateb y gofynion canlynol neu
    - mewn drymiau o fewn y man storio hwnnw.

72. Lle bynnag y caiff tanwydd ei storio, un ai mewn adeileddau eithriedig neu'n unol â gofynion y rheoliadau, cyfrifoldeb y ffermwr o hyd yw cymryd camau rhesymol i sicrhau y caiff ei ddal yn ddiogel, gan gynnwys cymryd rhagofalon rhag fandaliaeth lle mae hyn yn broblem, er mwyn lleihau'r risg o lygredd.

Gofynion ar gyfer mannau storio tanwydd: Atodlen 3 i Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010

73. Rhaid amgylchynu storfeydd tanwydd â muriau neu gloddiau anathraidd i atal olew rhag dianc. Rhaid sicrhau bod y clawdd a llawr y man storio'n anathraidd i ddŵr ac olew ac yn debygol o barhau felly gyda gwaith cynnal a chadw priodol am o leiaf 20 mlynedd[43]. Rhaid i'r clawdd beidio â chynnwys unrhyw fwlch na thwll, ac ni chaniateir iddo gael draen chwaith. Rhaid i bob rhan o'r tanc fod o fewn y clawdd.[44]

74. Gan na fydd y clawdd yn cynnwys unrhyw bibell allan na draen bydd angen cael dull o dynnu dŵr glaw ac olew gorlif. Yn ddelfrydol, dylid codi to dros y man storio i atal glaw rhag mynd i mewn iddo. Os bydd olew tanwydd, neu gymysgedd o olew tanwydd a dŵr, yn cronni o fewn clawdd mae'r ffermwr yn gyfrifol am dynnu'r hylif a'i waredu'n ddiogel heb achosi llygredd, ac am ateb gofynion dyletswydd gofal.

[41] Rheoliad 5(2)(b)
[42] Rheoliad 5(2)
[43] Atodlen 3, para 3
[44] Atodlen 3, para 4

75. Mae tabl 2 yn dangos y cyfaint lleiaf y mae'n rhaid i'r clawdd allu ei ddal.[45]

Tabl 2: Cyfeintiau storio lleiaf mannau cloddiog

Math o storfa	Cyfaint lleiaf o fewn y clawdd
Un tanc i bob man storio	110% o gynhwysedd y tanc
Sawl tanc o fewn un clawdd	110% o gynhwysedd y tanc mwyaf, neu 25% o gyfanswm cyfaint yr olew y gellid ei storio ar unrhyw un adeg, pa un bynnag yw'r mwyaf
Pob achos arall; e.e. drymiau a chasgenni	O leiaf 25% o gyfanswm cyfaint yr olew y gellid ei storio ar unrhyw un adeg.

76. Mae nifer o gynhyrchion ar gael, sy'n ymgorffori tanc storio a system gloddiau gyda'i gilydd. Efallai na fydd rhai o'r rhain yn bodloni gofynion y Rheoliadau hyn yn llawn, felly doeth fyddai cael cadarnhad ysgrifenedig gan y cyflenwr fod y cynnyrch yn ateb y gofynion. Y ffermwr sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Rheoliadau. Fe'ch cynghorir i gysylltu â'r Asiantaeth cyn penderfynu prynu. Gall yr Asiantaeth gynnig arweiniad, gan gynnwys taflen ffeithiau ynghylch addasrwydd gwahanol gynlluniau. Mae'r daflen ar gael ar wefan yr Asiantaeth.

77. Pan gaiff olew ei storio mewn tanciau gyda thapiau a falfiau mae'n bwysig sicrhau y caiff unrhyw olew sy'n gollwng o unrhyw ran o'r tanc ei gadw o fewn y clawdd. Yn achos pob tap a falf sydd wedi'u gosod yn barhaol ar y tanc ac y gellir gollwng olew tanwydd allan drwyddynt, rhaid i'r tapiau a'r falfiau fod o fewn y clawdd, wedi'u gosod i ollwng eu llwyth yn fertigol tuag i lawr, a rhaid eu cau a'u cloi yn y safle hwnnw pan nad ydynt mewn defnydd.[46]

78. Rhaid i unrhyw bibellau hyblyg sydd wedi'u gosod yn barhaol ar y tanc fod wedi'u ffitio â thap neu falf sy'n cau'n awtomatig pan nad yw mewn defnydd. Rhaid cloi'r bibell hon o fewn ardal y clawdd pan nad yw mewn defnydd. Pan nad ydynt mewn defnydd, rhaid i bob falf a dyfais lenwi fod wedi'u cloi'n dynn ac aros o fewn y clawdd.

79. Ni cheir lleoli unrhyw ran o'r man storio tanwydd na'r clawdd o'i amgylch o fewn 10 metr i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol na dyfroedd arfordirol y gallai olew tanwydd fynd iddynt pe bai'n dianc.

80. Er nad yw'n ofynnol dan y Rheoliadau, argymhellir defnyddio gwydrau gweld ar danciau tanwydd (a fyddai'n galluogi gweithwyr i weld lefel yr olew yn y tanc) a defnyddio larwm (a fyddai'n rhybuddio gweithwyr am orlenwi posibl).

[45] Atodlen 3, para 2
[46] Atodlen 3, para 5

Atodiad A – Ffurflenni, Taflenni ffeithiau[47] a Chysylltiadau

Ffurflen WQE3 Hysbysiad gan ffermwr i'r Asiantaeth bythefnos cyn dechrau defnyddio gosodwaith. Rheoliad 9 (Paragraffau 16,17).

Ffurflen WQE3 Cynllun adeiladu ar gyfer tanciau elifiant silwair dan y ddaear. Atodlen 1 (Paragraffau 20, 47)

Ffurflen WQE4 Hysbysiad silwair cae gan y ffermwr i'r Asiantaeth. Rheoliad 3(1)(c). (Paragraff 50)

Taflenni ffeithiau

Taflen ffeithiau 1: Pyllau derbyn slyri a storfeydd neu danciau slyri yn y pyllau neu uwchben y llawr
Taflen ffeithiau 2: Gwneud silwair cae
Taflen ffeithiau 3: Silwair: Gwneud, storio a systemau casglu elifiant ar gyfer seilos
Taflen ffeithiau 4: Systemau dyfrhau slyri graddol bach.
Taflen ffeithiau 5: Storfeydd a thanciau slyri â chloddiau pridd
Taflen ffeithiau 6: Storio olew tanwydd

Cysylltiadau defnyddiol/manylion gwybodaeth bellach

Llinell Argyfwng Asiantaeth yr Amgylchedd- 0800 80 70 60 (Gw Paragraff 15)
Llinell Gyswllt Cwsmeriaid Cenedlaethol AyA - 08708 506506- trwy hon gellir cysylltu wedyn â swyddfeydd lleol yr Asiantaeth.

[47] Gellir cael pob ffurflen o swyddfeydd lleol Asiantaeth yr Amgylchedd, neu eu lawrlwytho o *www.environment-asiantaeth.gov.uk/business/sectors/118798.aspx*

Atodiad B –Atodlenni a gymerwyd o Reoliadau SSOTA Cymru

Atodlen 1 Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010

Gofynion ar gyfer Seilos

1. Y gofyniad i'w fodloni mewn perthynas â seilo yw y dylai gydymffurfio â darpariaethau canlynol yr Atodlen hon.

2. Rhaid i waelod y seilo—

(a) ymestyn y tu hwnt i holl waliau'r seilo;

(b) gynnwys sianeli o amgylch ei ymylon wedi'u cynllunio a'u hadeiladu i gasglu unrhyw elifiant silwair sy'n dianc o'r seilo; a

(c) bod â darpariaeth ddigonol ar gyfer draenio'r elifiant hwnnw o'r sianeli hynny i danc elifiant drwy sianel neu bibell.

3. Rhaid i gynhwysedd y tanc elifiant beidio bod yn llai na'r meintiau canlynol—

(a) yn achos seilo â chynhwysedd llai na 1,500 metr ciwbig, 20 litr i bob metr ciwbig o gynhwysedd y seilo; a

(b) yn achos seilo â chynhwysedd o 1,500 metr ciwbig neu fwy, 30 metr ciwbig ynghyd â 6.7 litr i bob metr ciwbig o gynhwysedd y seilo dros 1,500 metr ciwbig.

4.—(1) Rhaid i waelod y seilo fod —

(a) wedi'i ddylunio'n unol â'r cod ymarfer ar gyfer dylunio adeileddau concrit i ddal hylifau dyfrol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan y rhif BS 8007: 1987[48]; neu

(b) wedi'i adeiladu gan ddefnyddio asffalt wedi'i rolio'n boeth yn unol â'r cod ymarfer ar gyfer dewis a defnyddio defnyddiau adeiladu a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan y rhif BS 5502: Rhan 21: 1990[49].

(2) Rhaid i waelod y seilo, gwaelod a waliau ei danc elifiant a'i sianeli a waliau unrhyw bibellau, fod yn anathraidd.

5. Rhaid i waelod a waliau'r seilo, ei danc elifiant a'i sianeli a waliau unrhyw bibellau, hyd y bo'n rhesymol ymarferol, allu gwrthsefyll ymosodiad gan elifiant silwair.

6. Ni cheir lleoli unrhyw ran o'r seilo, ei danc elifiant na'i sianeli nac unrhyw bibelli o fewn 10 metr i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol na dyfroedd arfordirol y gallai elifiant silwair fynd iddynt pe bai'n dianc.

7. Os oes gan y seilo waliau cynnal—

(a) rhaid i'r waliau cynnal allu gwrthsefyll llwythiadau wal lleiaf wedi'u cyfrifo ar y tybiaethau ac yn y modd a nodir gan baragraff 15.6 y cod ymarfer ar

[48] Dyddiad cyhoeddi: 30 Hydref 1987. ISBN 0-580-16134-X.
[49] Dyddiad cyhoeddi: 31 Rhagfyr 1990. ISBN 0-580-18348-3

adeiladau ac adeileddau amaethyddol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan y rhif BS 5502: Rhan 22: 2003[50];

(b) rhaid peidio byth â llwytho'r seilo i ddyfnder mwy na'r dyfnder mwyaf sy'n gyson â'r dybiaeth ddylunio a wnaed ynglŷn â llwythiadau'r waliau cynnal; a

(c) rhaid arddangos hysbysiadau ar y waliau cynnal yn unol â pharagraff 18 o'r cod ymarfer hwnnw.

8. Yn amodol ar baragraff 9, rhaid dylunio ac adeiladu'r seilo, ei danc elifiant a'i sianeli ac unrhyw bibelli mewn modd a fydd yn peri eu bod yn debygol, gyda'r gwaith cynnal a chadw priodol, o barhau i fodloni gofynion paragraffau 2 i 5 ac, os yw'n berthnasol, paragraff 7(a), am o leiaf 20 mlynedd.

9. Os yw unrhyw ran o danc elifiant yn is na lefel y ddaear, rhaid dylunio ac adeiladu'r tanc mewn modd a fydd yn peri ei fod yn debygol o barhau i fodloni gofynion paragraffau 4 a 5 am o leiaf 20 mlynedd heb gynnal a chadw.

Atodlen 2 Gofynion ar gyfer Systemau storio slyri

1. Dyma'r gofynion sydd i'w bodloni mewn perthynas â system storio slyri.

2. Rhaid i waelod y tanc storio slyri, gwaelod a waliau unrhyw danc elifiant, sianeli a phwll derbyn, a waliau unrhyw bibellau, fod yn anathraidd.

3. Rhaid i waelod a waliau'r tanc storio slyri, unrhyw danc elifiant, sianeli a phwll derbyn, a waliau unrhyw bibellau, gael eu gwarchod rhag cyrydiad yn unol â pharagraff 7 y cod ymarfer ar adeiladau ac adeileddau amaethyddol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan y rhif BS 5502: Rhan 50: 1993[51] .

4. Rhaid i waelod a waliau'r tanc storio slyri ac unrhyw bwll derbyn allu gwrthsefyll llwythiadau nodweddiadol a gyfrifir ar y tybiaethau ac yn y modd a nodir gan baragraff 5 y cod ymarfer ar adeiladau ac adeileddau amaethyddol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan y rhif BS 5502: Rhan 50: 1993.

5.—(1) Rhaid i unrhyw gyfleusterau a ddefnyddir i storio slyri dros dro cyn ei drosglwyddo i danc storio slyri fod â chynhwysedd digonol i storio—

(a) y swm mwyaf o slyri sydd (heb ystyried unrhyw slyri a drosglwyddir yn uniongyrchol i danc storio slyri) yn debygol o gael ei gynhyrchu yn y fangre mewn unrhyw gyfnod deuddydd; neu

(b) gynhwysedd llai, y mae'r Asiantaeth yn cytuno mewn ysgrifen ei fod yn ddigonol i osgoi unrhyw berygl sylweddol o lygru dyfroedd rheoledig.

(2) Lle bo slyri'n llifo i sianel cyn ei ollwng i bwll derbyn a lle rheolir llif y slyri allan o'r sianel drwy gyfrwng llifddor, rhaid i gynhwysedd y pwll derbyn fod yn ddigonol i ddal y swm mwyaf o slyri y gellir ei ryddhau drwy agor y llifddor.

6.—(1) Yn amodol ar is-baragraff (2), rhaid i'r tanc storio slyri fod â chynhwysedd storio digonol ar gyfer y symiau tebygol o slyri a gynhyrchir o bryd i'w gilydd yn y fangre dan sylw, gan ystyried—

[50] Dyddiad cyhoeddi: 10 Mehefin 2003. ISBN 0-580-38654-6
[51] Dyddiad cyhoeddi: 15 Ebrill 1993. ISBN 0-580-22053-2

(a) sut y bwriedir defnyddio'r slyri, a chyfraddau ac amserau tebygol ei ddefnyddio; a

(b) y materion a grybwyllir yn is-baragraff (3).

(2) Os bwriedir defnyddio'r slyri yn y fangre drwy ei daenu ar y tir, nid oes raid i'r tanc gael cynhwysedd storio mwy nag sy'n ddigonol, gan gofio'r materion a grybwyllir yn is-baragraff (3), i ddal y swm mwyaf o slyri sy'n debygol o gael ei gynhyrchu mewn unrhyw gyfnod pedwar mis.

(3) Dyma'r materion sydd i'w hystyried ar gyfer is-baragraffau (1) a (2)—

(a) cynhwysedd storio unrhyw danc storio slyri arall yn y fangre;

(b) faint o lawiad (gan gynnwys eira, cenllysg, cesair neu eirlaw) sy'n debygol o ddisgyn neu ddraenio i mewn i'r tanc storio slyri yn ystod y cyfnod storio hwyaf tebygol; ac

(c) yr angen i ddarparu o leiaf 750 milimetr o ofod gorlif, yn achos tanc â waliau o bridd, a 300 milimetr o ofod gorlif ymhob achos arall.

7. Ni cheir lleoli unrhyw ran o'r tanc storio slyri, nac unrhyw danc elifiant, sianeli na phwll derbyn o fewn 10 metr i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol na dyfroedd arfordirol y gallai slyri fynd iddynt pe bai'n dianc, oni fydd rhagofalon wedi'u cymryd a'r Asiantaeth wedi cytuno mewn ysgrifen eu bod yn ddigonol i osgoi unrhyw berygl sylweddol o lygru dyfroedd rheoledig.

8. Rhaid i'r tanc storio slyri ac unrhyw danc elifiant, sianeli, pibelli a phwll derbyn fod wedi'u dylunio a'u hadeiladu fel y byddant, gyda gwaith cynnal a chadw priodol, yn debygol o barhau i fodloni gofynion paragraffau 2 i 4 am o leiaf 20 mlynedd.

9. Os nad yw waliau'r tanc storio slyri'n anathraidd, rhaid i waelod y tanc—

(a) ymestyn y tu hwnt i'r waliau;

(b) gynnwys sianeli sydd wedi'u cynllunio a'u hadeiladu i gasglu unrhyw slyri sy'n dianc o'r tanc;

(c) gynnwys darpariaeth ddigonol ar gyfer draenio'r slyri o'r sianeli hynny i danc elifiant drwy sianel neu bibell.

10.—(1) Yn amodol ar is-baragraff (3), os yw'r tanc storio slyri neu unrhyw danc elifiant neu bwll derbyn wedi'i ffitio â phibell ddraenio, rhaid cael dwy falf mewn cyfres ar y bibell, gydag o leiaf 1 metr o bellter rhwng y naill falf a'r llall.

(2) Rhaid i bob falf allu atal llif y slyri drwy'r bibell a rhaid ei chadw ar gau ac wedi'i chloi felly pan nad yw mewn defnydd.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn berthnasol i danc storio slyri sy'n draenio drwy'r bibell i mewn i danc storio slyri arall os yw'r tanc arall yr un maint neu'n fwy neu os yw topiau'r tanciau ar yr un lefel.

11. Yn achos tanc storio slyri â waliau o bridd, rhaid peidio â llenwi'r tanc i lefel sy'n caniatáu llai na 750 milimetr o ofod gorlif.

Atodlen 3 Gofynion ar gyfer Mannau Storio Olew Tanwydd

1. Dyma'r gofynion sydd i'w bodloni mewn perthynas â man storio olew tanwydd.

2. Rhaid i'r man storio gael ei amgylchynu â chlawdd sy'n gallu cadw'r symiau canlynol i mewn—

(a) os mai dim ond un tanc storio tanwydd sydd yno ac na chaiff olew tanwydd ei storio fel arall yno, cyfaint o olew tanwydd nad yw'n llai na 110 y cant o gynhwysedd y tanc;

(b) os oes mwy nag un tanc storio tanwydd yno ac na chaiff olew tanwydd ei storio fel arall yno, cyfaint o olew tanwydd nad yw'n llai na'r mwyaf o'r rhain—

(i) 110 y cant o gynhwysedd y tanc mwyaf sydd yno; neu

(ii) 25 y cant o gyfanswm cyfaint y cyfryw olew y gellid ei storio mewn tanciau yn y man storio;

(c) os nad oes tanc storio tanwydd yno, cyfaint o olew tanwydd nad yw'n llai na 25 y cant o gyfanswm y cyfryw olew a gaiff ei gadw yn y man storio ar unrhyw bryd;

(d) mewn unrhyw achos arall, cyfaint o olew tanwydd nad yw'n llai na'r mwyaf o'r rhain —

(i) 110 y cant o gynhwysedd y tanc storio tanwydd neu, fel y bo'r achos, y tanc mwyaf yn y man storio;

(ii) os oes mwy nag un tanc storio tanwydd yno, 25 y cant o gyfanswm cyfaint y cyfryw olew y gellid ei storio yn y tanciau yn y man storio; neu

(iii) 25 y cant o gyfanswm cyfaint y cyfryw olew a gaiff ei gadw yn y man storio ar unrhyw bryd.

3. Rhaid i'r clawdd a gwaelod y man storio fod—

(a) yn anathraidd i ddŵr ac olew; a

(b) wedi'u dylunio a'u hadeiladu i fod yn ddigon cryf ac o integriti adeileddol digonol fel eu bod, gyda gwaith cynnal a chadw priodol, yn debygol o barhau felly am o leiaf 20 mlynedd.

4. Rhaid i bob rhan o unrhyw danc storio tanwydd fod o fewn y clawdd.

5. Rhaid i unrhyw dap neu falf sydd wedi'i osod yn barhaol ar y tanc storio tanwydd, y gellir gollwng olew tanwydd allan drwyddo—

(a) fod o fewn y clawdd hefyd;

(b) fod wedi'i osod i ollwng ei lwyth yn fertigol am i lawr; a

(c) bod wedi'i gau a'i gloi felly pan nad yw mewn defnydd.

6. Os trosglwyddir tanwydd o'r tanc drwy bibell hyblyg sydd wedi'i gosod yn barhaol ar y tanc, rhaid i'r bibell fod—

(a) â thap neu falf ar ei phen sy'n cau'n awtomatig pan nad yw mewn defnydd; a

(b) wedi'i chloi mewn modd sy'n sicrhau y caiff ei chadw o fewn y clawdd pan nad yw mewn defnydd.

7. Ni cheir lleoli unrhyw ran o'r man storio tanwydd na'r clawdd o'i gwmpas o fewn 10 metr i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol na dyfroedd arfordirol y gallai olew tanwydd fynd iddynt pe bai'n dianc.